**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

5 Rhagfyr 2025

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025 o dan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol. Rwy'n bwriadu gosod yr offeryn hwn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, mae'n rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 22 Ionawr 2026 er mwyn iddo barhau i fod mewn effaith. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad. Gallai fod o gymorth ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 20 Ionawr 2026.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Marc Wyn Jones, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.